










# Pythefnos Masnach Deg 2023

## Dewiswch ddyfodol ein bwyd

**Pythefnos Masnach Deg**
27 Chwefror i 12 Mawrth

# Pythefnos Masnach Deg 2023

**Pythefnos Masnach Deg Hapus!**

Mae'r byd yn wynebu argyfwng hinsawdd – mae'n effeithio ar y bwydydd rydyn ni'n eu caru a'r cymunedau sy'n eu cynhyrchu. Ond drwy ddewis Masnach Deg gallwch gefnogi cynhyrchwyr sydd ar flaen y gad yn yr argyfwng hinsawdd a helpu i ddiogelu dyfodol ein bwyd.

Yn Co-op, mae Masnach Deg yn greiddiol i'n gweledigaeth o Gydweithredu ar gyfer Byd Tecach. Mae ymrwymiad y Co-op i Fasnach Deg yn golygu bod cynhyrchwyr yn cael gwell incwm a hyfforddiant i addasu i heriau hinsawdd.

Gallwch gymryd rhan ym Mhythefnos Masnach Deg drwy ddewis Masnach Deg, drwy ledaenu'r gair neu drwy gynnal digwyddiad Pythefnos Masnach Deg. Gyda'n gilydd, gallwn hyrwyddo Masnach Deg.

Gall yr hyn a roddwch yn eich basged wneud newidiadau cadarnhaol i fywydau ledled y byd ac i'r blaned rydyn ni'n ei charu.

**Cate Hickey, Rheolwr Masnach Deg yn Co-op**



O'r chwith i'r dde: Sophie Long (Rheolwr Partneriaeth y Sefydliad Masnach Deg), Alberio Alfonso Cantillo (Ffermwr Banana Masnach Deg, Rheolwr ac Aelod o Co-operative COOBAFRIO yng Ngholombia) a Cate Hickey (Rheolwr Masnach Deg y Co-op)

# Arweinyddiaeth Masnach Deg y Co-op

## Yn Co-op, rydym wedi bod yn hyrwyddo Masnach Deg fel ffordd well o wneud busnes ers dros 29 mlynedd.

**2000** – 1st
Ni oedd y cyntaf yn y byd i lansio cynnyrch Masnach Deg brand ein hunain, ein siocled llaeth.

**2003** – 1st
Ni oedd y manwerthwr cyntaf i wneud ein holl goffi yn Fasnach Deg

**2004** – 1st
Gwnaethom lansio'r gwin Masnach Deg cyntaf erioed yn y byd

**2007** – 1st
Ni oedd y manwerthwr cyntaf i werthu bananas Masnach Deg yn ein holl siopau

**2008** – 1st
Ni oedd y cyntaf i newid i wlân cotwm Masnach Deg

**2016** – 1st
Ni oedd y manwerthwr cyntaf i wneud ein holl wyau Pasg siocled brand ein hunain yn Fasnach Deg (ac eithrio Free From)

**2017** – 1st
Ni oedd y manwerthwr cyntaf i ddod o hyd i'r holl goco a ddefnyddiwyd fel cynhwysyn ar delerau Masnach Deg

**2022** – 1st
Ni oedd y manwerthwr cyntaf i symud yr holl win label ein hun a brand o Dde Affrica i Fasnach Deg



# Sut i gymryd rhan mewn Pythefnos Masnach Deg

## Mae 3 prif ffordd y gallwch chi gymryd rhan ym Mhythefnos Masnach Deg:

**Dewiswch Fasnach Deg**



**Lledaenwch y gair**



**Cynhaliwch ddigwyddiad Pythefnos Masnach Deg**



### Dewiswch Fasnach Deg

Y ffordd hawsaf i chi gymryd rhan yn ystod y Pythefnos Masnach Deg hwn yw trwy ddewis Masnach Deg wrth siopa.

FAIRTRADE

Edrychwch am y Marc MASNACH DEG ar gynnyrch.

Beth am wneud ymrwymiad cyfnewid am weddill y flwyddyn?

Yn Co-op, mae'n hawdd newid i Fasnach Deg. Mae 100% o'n te, coffi, bananas, coco, siwgr mewn bagiau a rhosod Affricanaidd ein brand ein hun yn Fasnach Deg.

Daw'r holl goco a ddefnyddir fel cynhwysyn mewn unrhyw gynnyrch brand y Co-op ei hun ar delerau Masnach Deg, a lle mae bananas, te a choffi yn cael eu defnyddio fel cynhwysion rydym hefyd yn sicrhau bod cynhyrchwyr Masnach Deg yn elwa.

Ni hefyd yw gwerthwr mwyaf y byd o win Masnach Deg!

### Lledaenwch y gair

Adrodd straeon! Boed hynny i'ch ffrindiau, cydweithwyr neu'r gymuned, gallwch chi chwarae rhan mewn hyrwyddo Masnach Deg trwy rannu straeon cynhyrchwyr. Gallwch ddarllen rhai straeon ar dudalennau 6 a 7 neu edrych ar ein fideos a dyfyniadau cynhyrchwyr ar ein tudalennau gwe Masnach Deg.

Lledaenwch y gair ar gyfryngau cymdeithasol trwy ddefnyddio'r hashnodau canlynol: #FairtradeFortnight, #ChooseFairtrade, #ItsWhatWeDo a #BeingCoop a thagio @coopuk a @FairtradeUK.

Gallech bostio eich hoff beth am Fasnach Deg ar gyfryngau cymdeithasol a thagio 5 ffrind i wneud yr un peth!



Nyrsys graddedig o raglen sy'n cefnogi gwell gwasanaethau mamolaeth ar gyfer cymunedau tyfu blodau yn Navaisha, Cenia

# Sut i gymryd rhan mewn Pythefnos Masnach Deg parhau

## Cynnal digwyddiad Pythefnos Masnach Deg

Mae cynnal digwyddiad Pythefnos Masnach Deg yn ffordd wych o ledaenu'r gair am Fasnach Deg a rhoi cynnig ar gynnyrch Masnach Deg blasus!

### Arwerthiant pobi Masnach Deg

Trefnwch arwerthiant pobi gyda phobi blasus gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg fel bananas, coffi, coco a siwgr.



Beth am wneud ein **cacen siocled gorau** neu **gacennau cwpan cappuccino** Masnach Deg?

### Dosbarth meistr blasu coffi Masnach Deg

Cynhaliwch eich dosbarth meistr blasu coffi Masnach Deg eich hun. Profwch ddetholiad o goffi Masnach Deg, o'n Coffi Parod Masnach Deg Gwerth Gonest y Co-op i'n Coffi Mâl Rhost Cenia Anorchfygol Masnach Deg a gafwyd gan Mutira Farmers' Cooperative.

Angen help? Dilynwch ynghyd â'n harbenigwyr coffi **yma**.


Zachariah Mwangi, Ffermwr Coffi yn Mutira Farmers' Co-operative, Cenia

### Noson gemau Masnach Deg

Beth am roi eich gwybodaeth ar brawf a threfnu cwis Masnach Deg a chyfiawnder hinsawdd?

Neu cadwch at gêm siawns trwy chwarae gêm o bingo gan ddefnyddio ein **taflen gweithgaredd bingo**.



Byddai bar o'n Siocled Masnach Deg Anorchfygol Co-op yn wobr wych i'r enillydd.

### Parti cinio Masnach Deg

Gwahodd ffrindiau a theulu am ginio Masnach Deg. Coginiwch **Gyrri Tomato a Chyw Iâr Masnach Deg** sy'n plesio'r dorf neu, i lysieuwyr, mae ein **Cyri Te Masnach Deg a Chorbys**.

Gallwch hyd yn oed baru eich cyri ag un o'n gwinoedd **Masnach Deg sydd wedi ennill gwobrau.**



## Sbotolau ar ein hystod Gwerth Gonest

Yn Co-op, gallwch ddod o hyd i nwyddau Masnach Deg am amrywiaeth o brisiau.

Oeddech chi'n gwybod bod ein Te, Coffi a Siocled Poeth Gwerth Gonest i gyd yn Fasnach Deg? Beth am baru eich diod boeth gyda'n Bisgedi Gwenith Siocled Llaeth Gwerth Gonest sydd hefyd wedi'u gwneud gyda choco Masnach Deg.

Codwch y cynhyrchion hyn yn y siop i gefnogi cynhyrchwyr ar reng flaen yr argyfwng hinsawdd.






# Hyrwyddo Masnach Deg

### Mae Masnach Deg yn fwy nag ardystiad. Mae'n fudiad dros newid sy'n gweithio gyda busnesau, defnyddwyr, ymgyrchwyr a chynhyrchwyr i wneud i fasnach weithio i bawb.

Mae dewis Masnach Deg yn golygu sefyll gyda chynhyrchwyr dros degwch a chydraddoldeb, yn erbyn rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae'n golygu gall ffermwyr greu newid, o fuddsoddi mewn technegau ffermio sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd i ddatblygu menywod mewn arweinyddiaeth.

### Yn Co-op, credwn mai Masnach Deg yw safon aur ardystiadau moesegol a chynaliadwyedd. Masnach Deg yn Unig sy'n:

**1. Talu cynhyrchwyr yn deg**
Mae Isafswm Pris Masnach Deg yn golygu bod cynhyrchwyr yn cael pris tecach, er gwaethaf newidiadau i'r farchnad.

**2. Rhoi llais i gynhyrchwyr yn eu dyfodol**
Gyda Masnach Deg, mae cynhyrchwyr a gweithwyr yn gwella eu bywydau ac mae ganddynt fwy o reolaeth dros eu dyfodol.

**3. Yn gwneud y peth iawn ar gyfer pobl a'r blaned**
Mae Masnach Deg yn gweithio ochr yn ochr â chynhyrchwyr i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, trwy brosiectau addasu a lliniaru, gan gynnwys ailgoedwigo.

**4. Cryfhau cymunedau ledled y byd**
Mae'r Premiwm Masnach Deg yn darparu arian ychwanegol i gynhyrchwyr sy'n dewis sut i'w fuddsoddi mewn prosiectau sydd o fudd i'w cymunedau.

# Masnach Deg a chyfiawnder hinsawdd

### Dewiswch ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Dewiswch ddyfodol ein bwyd. Dewiswch Fasnach Deg.

Yr argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i fywoliaeth miliynau o gynhyrchwyr mewn gwledydd incwm isel ledled y byd sy'n tyfu'r bwydydd sydd eu hangen arnom ac rydyn ni'n eu caru.




Mae patrymau tywydd cyfnewidiol ac ymddangosiad plâu a chlefydau yn dinistrio cnydau ac yn peryglu bywoliaethau.

## Cyfiawnder hinsawdd

Mae cyfiawnder hinsawdd yn ddull i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae'n cydnabod mai pobl ar reng flaen yr argyfwng hinsawdd sydd wedi gwneud y lleiaf i achosi newid yn yr hinsawdd, ac eto nhw yw'r rhai sydd fwyaf agored i'w effeithiau.

Mae Masnach Deg yn cefnogi cynhyrchwyr trwy ddarparu hyfforddiant a gwell incwm iddynt addasu i heriau hinsawdd. Drwy ddewis Masnach Deg gallwch gefnogi ffermwyr sydd ar flaen y gad yn yr argyfwng hinsawdd a helpu i ddiogelu dyfodol ein bwyd.



# Masnach Deg a chyfiawnder hinsawdd Parhau

> “Yr hyn yr wyf yn ei ofni yw ble yr ydym yn mynd i fod mewn pump i ddeng mlynedd os na wnawn unrhyw beth am newid yn yr hinsawdd. Mae yna sychder, llifogydd, cnydau isel a phlâu a chlefydau ac os nad yw cynnyrch y fferm yn gwneud yn dda, fe fydd yna brinder bwyd.”
>
> Mary Warau, Gweithiwr Blodau Masnach Deg yn Rainforest Farmlands Kenya Limited.

### Oeddech chi’n gwybod……

yn fuan gallai fod yn llawer anos dod o hyd i goco, bananas a choffi ar ein silffoedd? Mae newid hinsawdd yn gwneud cnydau fel y rhain yn anos ac yn anos eu tyfu. Ynghyd â masnach annheg iawn, mae cymunedau sy’n tyfu’r cydau hyn yn cael eu gwthio i’r dibyn.



# Sut rydym yn cefnogi cynhyrchwyr i addasu i'r argyfwng hinsawdd

### Fairtrade Alliance for Climate-Smart Supply Chains in Africa (FACSCA)

Mae Co-op wedi partneru â Masnach Deg Affrica i gefnogi cynhyrchwyr te, coffi a blodau yn Cenia, Ethiopia a Rwanda i:

- Ffermio mor gynaliadwy â phosib
- Gwella maint ac incwm cnydau
- Dod yn fwy gwydn i’r argyfwng hinsawdd
- Diogelu eu hamgylchedd lleol

Hyd yn hyn, mae dros 1,400 o ffermwyr wedi dysgu am achosion newid hinsawdd a sut i leihau eu heffaith amgylcheddol. Er mai’r cynhyrchwyr hyn sydd wedi cyfrannu lleiaf at yr argyfwng hinsawdd, maent yn ceisio diogelu dyfodol nwyddau allweddol i bawb drwy leihau eu hôl troed carbon.





> “Mae FACSCA wedi fy nghefnogi’n fawr. Pan dwi’n mynd i’r fferm, dwi’n cael cnwd da ac felly mae gen i arian ar gyfer bwyd, dillad plant… Mae gwahaniaeth enfawr.”
>
> Emily Rotich, Ffermwr Te yn Fintea Growers Co-operative Union Ltd, Cenia



### Rhaglen Gwella Cynhyrchiant (PIP) Bananas Masnach Deg

Mewn partneriaeth â’n cyflenwr, mae Co-op wedi cyd-ariannu PIP yn y Weriniaeth Ddominicaidd a Colombia.

Mae’r rhaglen yn cefnogi ffermwyr banana ar raddfa fach i adfer iechyd priddoedd wedi’u disbyddu trwy ffrwythloni organig ac arferion amaethyddol da. Gan fod y ffermwyr hyn ar flaen y gad yn yr argyfwng hinsawdd maent yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys y bygythiad cynyddol o blâu a chlefydau.

Drwy wella cynhyrchiant ffermydd banana mewn ffordd gynaliadwy, mae PIP wedi cynyddu incwm ffermwyr wrth leihau effaith amgylcheddol cynhyrchu bananas.





> “Ein dymuniad yw parhau i weithio’r tir, cynnal iechyd y pridd yn arbennig, a chael y sicrwydd bwyd hwnnw, nid yn unig i ni ond i’r byd i gyd, dyna ein gobaith”
>
> Ana Anjelica Lopez, Ffermwr Bananas Masnach Deg ac Aelod o Gydweithfa EMPREBANCOOP yng Ngholombia

# Diolch am cefnogi Masnach Deg



> “Mae Masnach Deg wedi rhoi llawer i fi. Rwyf wedi elwa fel person ac fel cynhyrchydd… Mae Masnach Deg yn darparu’r hyn sydd ei angen arnom i wella ein bywydau.”
>
> Celenia Orozco, ffermwr bananas ar raddfa fach ac aelod o ASOBANARCOOP Co-operative yng Nghlombia

Diolch am ddewis cefnogi Masnach Deg a Phythefnos Masnach Deg. Mae eich cefnogaeth yn mynd yn bell o ran newid bywydau cynhyrchwyr ledled y byd.

**Gallwch hefyd ddysgu rhagor yn y dolenni isod:**

- Gwefan Fairtrade Foundation
- Gwefan ysgolion Fairtrade Foundation
- Tudalen gwe ymgyrchu Masnach Deg y Co-op

Wrth ddathlu Pythefnos Masnach Deg 2023, rhannwch ef gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol fel y gallwn ledaenu’r gair ymhell ac agos, gan ddefnyddio’r hashnodau (ar y dde) a thagio @coopuk a @FairtradeUK.

## Cysylltwch â ni

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich straeon Masnach Deg a gweld eich lluniau

@Coopuk @Coopuk

Gadewch i ni wybod beth rydych yn ei wneud gan ddefnyddio’r hashnodau #ChooseFairtrade #ItsWhatWeDo #FairtradeFortnight a #BeingCoop